Breuddwyd y Brenin Nebwchadnesar

Daniel 2: 1-49

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Daniel 2: 1-49		
1	Ar ôl i fyddin Babilon goncro Jerwsalem gorfodwyd dynion ifanc y ddinas i weithio fel caethion ym Mabilon. Un Israeliad ifanc oedd yn gwasanaethu y Brenin Nebwchadnesar oedd Daniel.		
2	Un noson cafodd y Brenin Nebwchadnesar freuddwyd oedd yn ei boeni gymaint roedd yn colli cwsg am y peth.		
3	Dyma fe'n galw'r swynwyr, y dewiniaid, y consurwyr a'r dynion doeth at ei gilydd i esbonio'r freuddwyd iddo. A dyma'r brenin yn dweud wrthyn nhw, "Dw i wedi cael breuddwyd, a dw i eisiau gwybod beth ydy'r ystyr." A dyma'r dynion doeth yn ateb, "Dwedwch beth oedd y freuddwyd wrth eich gweision, a gwnawn ni ddweud beth mae'n ei olygu."		

4	“Na,” meddai'r brenin, “yn bendant ddim. Dw i wedi penderfynu fod rhaid i chi ddweud beth oedd y freuddwyd a beth mae'n ei olygu." Ond dyma nhw'n dweud eto, “Os bydd y brenin mor garedig â dweud wrthon ni beth oedd y freuddwyd, gwnawn ni ddweud wrtho beth mae'n ei olygu.”	
5	“Os wnewch chi ddim dweud wrtho i beth oedd y freuddwyd bydd hi ar ben arnoch chi. Felly dwedwch wrtho i beth oedd y freuddwyd," gwaeddodd y Brenin. Dyma'r dynion doeth yn ei ateb, “Does neb ar wyneb daear allai wneud beth mae'r brenin yn ei ofyn. Mae'r brenin yn gofyn am rywbeth sy'n amhosib! Dim ond y duwiau sy'n gwybod yr ateb — a dŷn nhw ddim yma gyda ni!” Pan glywodd hynny, dyma'r brenin yn gwylltio'n lân, a gorchymyn fod dynion doeth Babilon i gyd i gael eu lladd.	
6	Dyma Daniel yn cael gair yng nghlust Arioch, capten gwarchodlu'r brenin er mwyn gwybod be oedd wedi digwydd. Wedyn gofynnodd i'r brenin roi ychydig amser iddo, a byddai'n esbonio iddo beth oedd ystyr y freuddwyd.	

7	Wedyn aeth Daniel adre, a dweud wrth ei ffrindiau Hananeia, Mishael ac Asareia am y peth. Gofynnodd iddyn nhw weddïo y byddai Duw'n drugarog, ac yn dweud wrthyn nhw beth oedd ystyr ddirgel y freuddwyd. Y noson honno dyma Daniel yn cael yr ateb i'r dirgelwch, mewn gweledigaeth yn ystod y nos.	
8	Dyma Daniel yn mynd at Arioch a dweud wrtho, “Paid lladd dynion doeth Babilon. Dos â fi i weld y brenin. Gwna i ddweud wrtho beth ydy ystyr y freuddwyd.” Felly'n syth bin dyma Arioch yn mynd â Daniel i weld y brenin.	

9	Dyma ddywedodd Daniel wrth y Brenin: "Mae yna Dduw yn y nefoedd sy'n gallu dangos ystyr pob dirgelwch. Dw i ddim wedi cael yr ateb i'r dirgelwch am fy mod i'n fwy doeth na phawb arall, ond am fod Duw eisiau i'r brenin ddeall y freuddwyd gafodd e. Beth welsoch chi oedd cerflun anferth oedd yn disgleirio'n llachar. Roedd pen y cerflun wedi ei wneud o aur, ei frest a'i freichiau yn arian, ei fol a'i gluniau yn bres, ei goesau yn haearn, a'i draed yn gymysgedd o haearn a chrochenwaith. Tra roeddech chi'n edrych arno dyma garreg yn cael ei thorri o ochr mynydd gan law anweledig. Dyma'r garreg yn taro'r cerflun ar ei draed, ac yn eu malu nhw'n ddarnau. A dyma'r cerflun anferth yn syrthio'n ddarnau. Roedd y cwbl yn ddarnau mân, fel us ar lawr dyrnu. A cafodd y cwbl ei chwythu i ffwrdd gan y gwynt. Doedd dim sôn amdano. Ond wedyn dyma'r garreg wnaeth daro'r cerflun yn troi yn fynydd enfawr oedd i'w weld yn amlwg drwy'r byd i gyd.	

10 A nawr, fe esboniaf ystyr y freuddwyd: Eich mawrhydi, mae Duw y nefoedd wedi rhoi awdurdod, pŵer, grym ac anrhydedd i chi. Dych chi'n teyrnasu ar y byd i gyd. Chi ydy'r pen o aur. Ond bydd teyrnas arall yn dod ar eich ôl chi; fydd hi ddim mor fawr â'ch ymerodraeth chi. Ar ôl hynny bydd trydedd teyrnas yn codi i reoli'r byd i gyd — dyma'r un o bres. Wedyn bydd y bedwaredd deyrnas yn codi. Bydd hon yn gryf fel haearn. Yn union fel mae haearn yn malu popeth mae'n ei daro, bydd y deyrnas yma yn dinistrio a sathru popeth aeth o'i blaen. Ac wedyn y traed a'r bodiau welsoch chi (oedd yn gymysgedd o haearn a chrochenwaith) — bydd hon yn deyrnas ranedig. Bydd ganddi beth o gryfder yr haearn ynddi, ond haearn wedi ei gymysgu â chrochenwaith ydy e. Yn amser y brenhinoedd yna bydd Duw y nefoedd yn sefydlu teyrnas fydd byth yn cael ei dinistrio. Fydd y deyrnas yma byth yn cael ei choncro a'i chymryd drosodd gan bobl eraill. Bydd yn chwalu'r teyrnasoedd eraill, ac yn dod â nhw i ben. Ond bydd y deyrnas hon yn aros am byth. Dyna ystyr y garreg gafodd ei thorri o ochr mynydd gan law anweledig, a malu'r cwbl yn ddarnau — yr haearn, y pres, y crochenwaith, yr arian a'r aur. Mae'r Duw mawr wedi dangos i'r brenin beth fydd yn digwydd yn y dyfodol."

11	Dyma'r brenin Nebwchadnesar yn plygu o flaen Daniel. Dwedodd wrth Daniel, “Ti ydy'r unig un sydd wedi gallu datrys y dirgelwch. Felly, does dim amheuaeth fod dy Dduw di yn Dduw ar y duwiau i gyd, ac yn feistr ar bob brenin. Mae e'n gallu datguddio pob dirgelwch!” Dyma'r brenin yn rhoi un o swyddi uchaf y deyrnas i Daniel, ac yn rhoi llwythi o anrhegion iddo. Gwnaeth Daniel yn Llywodraethwr talaith Babilon gyfan, ac yn bennaeth dynion doeth Babilon i gyd. A gofynnodd Daniel i'r brenin apwyntio Shadrach, Meshach ac Abednego yn rheolwyr gweinyddiaeth talaith Babilon.	
12	Cyfieithwyd gan www.beibl.net	Free Bible illustrations These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution Share-alike 3.0 unported licence. www.freebibleimages.org